# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 22 Mai 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(66)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13:30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.  Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14:28

### 3. Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol).

Dechreuodd yr eitem am 14:37

**NDM4890 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69(ii), sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Gosodwyd Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) gerbron y Cynulliad ar 30 Ionawr 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ: Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru ar gyfer Twf a Swyddi

Dechreuodd yr eitem am 14:38

## 5. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Y Polisi Amaethyddol Cyffredin: Safbwynt Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15:24

## 6. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Trefniadau newydd ar gyfer darparu cymorth gyda'r Dreth Gyngor yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 16:04

## 7. Dadl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ar 'Adnoddau Naturiol Cymru'

Dechreuodd yr eitem am 16:35

**NDM4891 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad 'Adnoddau Naturiol Cymru' ynghylch y cynnig i ddatblygu un corff i reoli adnoddau naturiol yng Nghymru.

Mae canlyniadau'r ymgynghoriad "Adnoddau Naturiol Cymru" ar gael drwy fynd i:

http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/singlebody/?skip=1&lang=cy

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi sylw i bryderon y sector coedwigaeth a fynegwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod arbenigedd masnachol y sector coedwigaeth yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn nhrefniadaeth unrhyw un corff amgylcheddol newydd, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei adroddiad i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2012.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd gweddill y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod yr achos busnes dros yr uno wedi'i gyhoeddi cyn ymgynghori ar nodau'r un corff amgylcheddol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 30 | 59 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pryderon presennol sector coedwigaeth Cymru o ran creu'r un corff amgylcheddol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 58 | 0 | 0 | 58 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ail-archwilio prif nodau ac amcanion strategol yr un corff amgylcheddol er mwyn cael sicrwydd ac eglurder llwyr yn eu cylch.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 5 | 39 | 58 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o arbenigedd masnachol yn y sefydliad newydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 58 | 0 | 0 | 58 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o drefniadau diogelu yn yr un corff amgylcheddol petai gwrthdaro mewn buddiannau rhwng y tir y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno a'r trefniadau caniatáu ar gyfer prosiectau ynni ar y tir hwnnw.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 58 | 0 | 0 | 58 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4891 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad 'Adnoddau Naturiol Cymru' ynghylch y cynnig i ddatblygu un corff i reoli adnoddau naturiol yng Nghymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi sylw i bryderon y sector coedwigaeth a fynegwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod arbenigedd masnachol y sector coedwigaeth yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn nhrefniadaeth unrhyw un corff amgylcheddol newydd, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei adroddiad i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2012.

Yn nodi pryderon presennol sector coedwigaeth Cymru o ran creu'r un corff amgylcheddol.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o arbenigedd masnachol yn y sefydliad newydd.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o drefniadau diogelu yn yr un corff amgylcheddol petai gwrthdaro mewn buddiannau rhwng y tir y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno a'r trefniadau caniatáu ar gyfer prosiectau ynni ar y tir hwnnw.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **58** | **0** | **0** | **58** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17:22

**8. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17:25

**NDM4889 Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth):**

Cyfranogaeth a grymuso yn nyfodol Gwasanaethau Gofal yng Nghymru – Mentrau Cydweithredol, Cwmnïau Cydfuddiannol a thaliadau uniongyrchol.

I drafod profiadau o ran taliadau uniongyrchol yn ogystal â modelau cydfuddiannol a chydweithredol ar gyfer gwasanaethau gofal yn dilyn adroddiad Scope "Unigoliaeth neu

Gyfunoliaeth ym Maes Gofal: A all taliadau uniongyrchol helpu i greu cymunedau cryfach?”

Daeth y cyfarfod i ben am 17:46

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mercher, 23 Mai 2012**